# Nodyn o'r cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod** | **Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru – cyfarfod 69** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 29 Mehefin 2021 |
| **Amser y cyfarfod** | **10:30 – 13:00** |
| **Yn bresennol:** | Howard Davies (Cadeirydd CNC), Geraint Davies (Aelod Bwrdd/Cadeirydd newydd CNC), Rosie Plummer (Aelod Bwrdd CNC), Elfyn Jones (Cyngor Mynydda Prydain/Cyswllt Amgylchedd Cymru), Mr Scott Ashworth (Y Weinyddiaeth Amddiffyn), Rachel Lewis-Davies (NFU), Beverley Penney (OSS), Jonathan Hughes (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Phil Stone (Canŵ Cymru), Charles de Winton (CLA), Kathryn Stewart (Cymdeithas Ceffylau Prydain), Adrian Walls (Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru – hawliau tramwy cyhoeddus), Rachel Evans (Y Gynghrair Cefn Gwlad), Gwenda Owen (Cycling UK), Gerwyn Owen (RYA Cymru), Simon Patton (Mountain Training), David Evans (Ymddiriedolaeth Cwm Elan), Bernard Griffiths (FUW), Ruth Rourke (Is-gadeirydd y Sefydliad Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Rheoli Mynediad), Tom Sharp (WSA), Rebecca Brough (Ramblers Cymru), Dave Waterman (LARA), Kieran Foster (Cycling UK), Steve Rayner (WATO), Ben Sears (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru), Simon Pickering (Llywodraeth Cymru), Helen Lewis (Llywodraeth Cymru), Ian Mabberley (Fforymau Mynediad Lleol), Carys Drew a Jayne Carter (Ysgrifenyddiaeth CNC), Juliet Michael (CNC), Susan Williams (CNC), Jont Bulbeck (CNC), Delyth Davies (Cyfieithydd). |
| **Ymddiheuriadau** | Kerry Thatcher (Croeso Cymru), Eni Hansen-Magnusson (Sustrans), Chris Mills (Afonydd Cymru), Mark Weston (Cymdeithas Ceffylau Prydain), Phil Roberts (Llywodraeth Cymru) |
| **Arsylwyr** | Angela Charlton (Ramblers UK), Eben Muse (BMC), Eifion Jones (Cyngor Ceredigion), Steve Jenkinson (Kennel Club), Anthony Richards (Parciau Cenedlaethol Cymru), Michael Smith (CNC), Alison Roberts (CNC), David Liddy (CNC), Bill Purvis (NRW), Dave Maccallum (CNC), Owen Gruffudd (CNC), Michael Smith (CNC), Liza Tomos (CNC) |

| Rhif yr Eitem | Eitem | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| 1. | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i'r 69fed cyfarfod gan ddweud mai dyma fyddai ei gyfarfod olaf fel Cadeirydd. Caiff y cyfarfod ei recordio at ddibenion y cofnodion yn unig a bydd y recordiad hwn yn cael ei ddileu ar ôl cwblhau'r cofnodion.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i'r canlynol am eu cymorth dros y tair blynedd diwethaf;<br><br>• Carys Drew (CNC) – sydd â sgiliau trefnu heb eu hail ac sy'n parhau i weithio yn y cefndir ar gyfarfodydd.<br>• Ruth Rourke (Is-Gadeirydd) – sy'n barod i gamu i'r adwy bob amser a helpu pan fo angen.<br>• Jayne Carter (CNC) – sydd hefyd yn y cefndir i helpu i sicrhau bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn ddidrafferth.<br>• Diolch i holl Aelodau'r Fforwm sy'n rhoi amser ac egni i sicrhau llwyddiant cyfarfodydd Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru. Mae hon yn fenter gwbl gydweithredol a dim ond yn gweithio os yw Aelodau'r Fforwm yn gweithio hefyd.<br><br>Nododd y Cadeirydd fod mynediad i'r amgylchedd naturiol a materion mynediad cyffredinol yn bwysig iawn, ac y gall pobl fod â barn wahanol amdanynt weithiau. Mae rhai o'r trafodaethau sy'n dilyn yn gallu bod yn anodd, ac roedd yn ddiolchgar bod y fforwm heb osgoi eu trafod, ac yn ddiolchgar i'r aelodau am y ffordd maent wedi rheoli'r trafodaethau hyn a'r hyn a gyflawnwyd dros y blynyddoedd.<br><br>Diolchodd i'r aelodau am y cerdyn a'r sylwadau, gan nodi ei fod yn eu gwerthfawrogi'n fawr, ac yn ddiolchgar iawn amdanynt.<br><br>Cyflwynwyd y ddau aelod o Fwrdd CNC a oedd yn ymuno â'r cyfarfod; Geraint Davies, a fydd yn dod yn Gadeirydd, a Rosie Plummer, sydd â diddordeb mewn mynediad, yn aelod gweithgar o fwrdd CNC a hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig. | |

Cyflwynodd Geraint Davies ei hun fel aelod o fwrdd CNC a ffermwr mynydd o'r Bala ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Mae'n ymdrin â mynediad bob dydd gydag ymwelwyr ar y tir ac yn mwynhau trafod â phobl am faterion defnydd tir a mynediad yng Nghymru. Mae'n edrych ymlaen at fod yn Gadeirydd a gweithio gydag aelodau'r Fforwm i helpu gyda mynediad ledled Cymru.

Cyflwynodd Rosie Plummer ei hun fel aelod o fwrdd CNC a bod ganddi ddiddordeb yn yr awyr agored erioed. Gyda chefndir ym maes Amaethyddiaeth a Gwyddorau Coedwigaeth; cyn symud i Wyddoniaeth a Rheoli. Mae ganddi ddiddordebau a gwybodaeth eang sy'n addas i'r Fforwm Mynediad ac mae'n aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Aeth y Cadeirydd drwy drefniadau'r cyfarfod; yn cynnwys distewi eich hun yn ystod cyflwyniadau a chodi llaw i siarad, yn ogystal â'r cyfleuster 'Sgwrsio'.

Eglurodd Carys sut roedd y cyfieithu ar y pryd yn gweithio a sut i ymuno drwy ffonio rhif y delegynhadledd i'r rhai sydd ei angen.

Darllenwyd yr ymddiheuriadau, yn cynnwys gan John Morgan a oedd wedi hysbysu Carys ei fod wedi rhoi'r gorau i'w rôl fel Cynrychiolydd Cenedlaethol y Fforymau Mynediad Lleol gan ddarparu'r cyswllt allweddol rhwng Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru a'r fforymau mynediad lleol statudol.

**Cam Gweithredu 69.1:** diolch yn ffurfiol i John Morgan am ei gyfraniad fel Cynrychiolydd Cenedlaethol i'r holl fforymau.

## Camau Gweithredu a Materion sy'n Codi

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol drwy e-bost. Roedd y camau gweithredu wedi'u cwblhau neu ystyriwyd eu bod wedi'u cyflawni.

2.

**Cam Gweithredu 68.1 Aelodau i ddarparu cyfraniadau ysgrifenedig erbyn 30 Mawrth**

Dylid anfon unrhyw gyfraniad at Carys gan eu bod yn cael eu casglu a'u cofnodi i'w cadw.

**68.2 Carys i lunio crynodeb un dudalen o'r 'Gwersi a Ddysgwyd' o gyflwyniad Helen Pye**

Cytunodd y Cadeirydd a Carys ar hyn a byddant yn cael eu dosbarthu i'r aelodau pan fyddant yn barod.

## Pam mae cymdeithas angen natur: gwersi o'r ymchwil yn ystod Covid 19

Rhannodd Dr Sue Williams, Prif Gynghorydd Arbenigol Ymchwil Cymdeithasol, CNC y prif bwyntiau o adroddiad newydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar am effaith Covid-19 ar pam mae cymdeithas angen natur. Cychwynnwyd y gwaith yn Hydref 2020 pan oedd graddau effaith Covid-19 yn dod yn amlwg, yn enwedig o ran defnydd pobl o'r awyr agored, eu hymwneud â natur ac effeithiau ar hamdden a rheoli tir.

Mae yna grŵp bychan o Benaethiaid Gwyddorau Cymdeithasol o amrywiaeth o gyrff amgylcheddol a phrif adrannau'r llywodraeth yn y DU. Roedd y grŵp hwn yn cydnabod y flaenoriaeth o angen deall beth oedd yn digwydd gyda Covid-19 a newidiadau ar lefel poblogaeth. Un o'r heriau a wynebwyd oedd, sut i gael tystiolaeth i ymarferwyr mor fuan â phosibl mewn sefyllfa a oedd yn esblygu a newid mor gyflym.

**3.** Am y tro cyntaf, daeth cynrychiolwyr o Cyfoeth Naturiol Cymru, Forest Research, NatureScot, Natural England ac Asiantaeth yr Amgylchedd ynghyd gyda'u profiad o wybodaeth fewnol, a chylch gwaith deuol o dystiolaeth a gweithrediadau, a cheisiwyd cwblhau Adolygiad Cyflym o Dystiolaeth. Fel y bobl sy'n cynhyrchu'r dystiolaeth, roedd y ffocws ar y dystiolaeth a gasglwyd gan yr uchod yn bennaf. Roedd hyn yn cynnwys amrywiaeth o arolygon cenedlaethol ledled Cymru, Lloegr a'r Alban, crynhowyd data safleoedd o wahanol safleoedd ac roedd yna ymchwil ansoddol. Edrychodd Forest Research ar brofiadau pobl yn ystod Covid-19 ond roedd gwybodaeth ymarferwyr yn allweddol i'r gwaith ymchwil hwn. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth gan reolwyr safleoedd, cydweithwyr gweithredol ac fe gafodd y rhain eu cynnwys mewn astudiaethau achos.

Coladwyd yr holl wybodaeth hon o Gymru, Lloegr a'r Alban i un adroddiad i'w ddosbarthu i randdeiliaid allweddol cyn gynted â phosibl. Gwersi a ddysgwyd yn y cam hwn oedd na ellir casglu gwybodaeth gan 5 asiantaeth llywodraeth yn 'gyflym' nac yn 'hawdd', gan fod angen cwblhau 5 proses sicrhau ansawdd wahanol a phrosesau ymgeisio llywodraeth gwahanol, a gymerodd fwy o amser nag y bwriadwyd yn wreiddiol.

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ac mae ar gael o ddechrau eleni [2021] i'r rhai sy'n ymdrin ag effeithiau bywyd go iawn Covid-19.

Gofynnwyd nifer o gwestiynau allweddol, i edrych ar effaith wirioneddol Covid-19 ar lefel y boblogaeth gyfan i ddeall beth oedd yn digwydd gydag ymgysylltiad pobl â'r awyr agored a hamdden. Cafwyd cwestiynau hefyd am beth oedd yn digwydd yn ystod cyfnodau clo a'r llacio cyfyngiadau a oedd yn dilyn hynny. Hefyd, pa heriau a manteision oedd yna o'r newidiadau mewn ymddygiad dros y 12 mis diwethaf. Yn olaf, a oedd yna unrhyw nodweddion tebyg yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Yn y dadansoddiad, roedd y cwestiynau a ofynnwyd yn cynnwys a oedd yna unrhyw wahaniaethau rhwng grwpiau cymdeithasol? Beth oedd y gwahaniaethau rhwng llefydd? A yw gweithgareddau pobl wedi newid? A wnaeth hyn newid rhwystrau neu ysgogiad pobl i ymweld â'r awyr agored? Prif fanteision: e.e. iechyd a lles, sydd wedi bod yn broblem yn gyffredinol gydol Covid-19. Prif heriau: yn arbennig ynghylch niferoedd ymwelwyr ac ymddygiad cyfrifol.

Mae'r canlyniadau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad, ond y prif ganlyniad o'r ymchwil yw bod ymwneud â natur a hamdden wedi'u polareiddio fwy; mae'r gwahaniaeth rhwng y bobl sy'n cymryd rhan a'r rhai nad ydynt wedi cynyddu. Er bod yna fwy o bobl yn nodi eu bod yn cyfranogi 'mwy' nag arfer, roedd yr un nifer yn nodi eu bod yn cyfranogi 'llai' nag arfer.

Yn ystod y cyfnod clo cyntaf, o fis Mawrth i fis Mehefin 2020, cafwyd gostyngiad sylweddol yn nifer yr ymwelwyr a oedd yn defnyddio'r awyr agored. Pan ddechreuodd y cyfyngiadau hyn lacio, cynyddodd y niferoedd yn sylweddol; fel diwrnod cyntaf sêls mis Ionawr. Ni welwyd y math hwn o bolareiddio o'r blaen, mae yna wahaniaethau tymhorol wedi bod erioed, ond roedd hyn yn ddigynsail o ran y pwysau a'r straen y mae wedi'i greu.

Yn ddiddorol, o edrych ar gyfranogiad cyffredinol gydol 2020 yn ystod y cyfnodau clo a llacio cyfyngiadau, mae yna golled net ar gyfer cyfanswm ymweliadau ar gyfer y flwyddyn gyfan. Y pwynt olaf sy'n destun pryder yw bod dwywaith cymaint o blant yn treulio llai o amser yn yr awyr agored na chyfran y rhai sy'n treulio amser yn yr awyr agored fel arfer. Mae hon yn broblem ddifrifol ac mae

angen rhagor o waith i ymchwilio i hyn yn fanylach, yn cynnwys rôl cau ysgolion.

Mae Covid-19 wedi cynyddu anghydraddoldeb cyfranogiad a oedd yn bodoli cynt ymhlith y rhai sy'n mwynhau'r awyr agored. Cafodd Covid-19 effaith fwy negyddol ar bobl o ardaloedd o amddifadedd sy'n fwy tebygol o fod yn ddi-waith, neu ar incwm isel, gydag addysg wael, neu'r rhai sy'n hŷn neu ag anableddau. Tra bod y gwrthwyneb wedi digwydd i'r rhai ar incwm uwch mewn ardaloedd â llai o amddifadedd, roedden nhw'n ymweld mwy â mannau awyr agored. Mae'n ymddangos bod rhai o'r anghydraddoldebau hyn yn gysylltiedig â dosbarthiad anghyfartal mannau gwyrdd lleol a'r rhai â gardd breifat. Yn y ffenestr negeseuon 'Aros yn Lleol' yn enwedig, mae'r System Gwybodaeth Ddaearyddol yn dangos bod gan y rhai mewn ardaloedd o amddifadedd lai o fynediad i fannau gwyrdd lleol. Roedd gan y rhai a fyddai'n elwa fwyaf y ddarpariaeth leiaf a'r cyfle lleiaf, ac mae hyn wedi gwneud anghydraddoldeb yn waeth.

Cafwyd cynnydd sylweddol mewn defnydd o fannau gwyrdd lleol mewn ardaloedd trefol, yn enwedig yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Gwelodd y prif fannau twristaidd ostyngiad sylweddol yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Dangosodd data safleoedd CNC ostyngiad o 90% mewn niferoedd ymwelwyr yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Pan gafodd cyfyngiadau eu llacio, gweld dwbl y niferoedd yn y mis cymharol o 2019.

Wrth edrych ar ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, sydd wedi bod yn monitro hyn yn wythnosol, pan ail-agorodd siopau a lletygarwch, roedd yna ostyngiad yn nifer y bobl a oedd yn mynd allan i ymarfer yn yr awyr agored. Ond mae pobl wedi gweld yr awyr agored fel 'lle diogel' gydol y pandemig. Mewn cyfnodau clo dilynol, fel Gaeaf 2020, cafwyd gostyngiad mewn niferoedd ond nid yn rhy isel; mae pobl yn dal i ddefnyddio'r awyr agored i ymarfer yn ystod cyfyngiadau Covid-19.

Mae yna ddata am y math o weithgareddau y mae pobl yn eu gwneud, er bod y gwaith yn dal i fynd rhagddo a bod y canlyniadau'n ddangosol a heb fod yn warantedig ar y cam hwn. Mae cerdded wedi parhau i fod ar frig y rhestr weithgareddau ac wedi cynyddu yn ystod Covid-19. Mae beicio wedi cynyddu hefyd, yn enwedig fel gweithgarwch i'r teulu a phobl iau. Mae canlynid dangosol bod gweithgareddau dŵr wedi cynyddu hefyd; yn ôl yr hyn rydym yn ei glywed mae nofio [gwyllt] yn yr awyr agored yn boblogaidd. Yn ogystal, mae padlfyrddio a 'chychod gwynt'

wedi cynyddu mewn poblogrwydd hefyd. Nid yw gweithgareddau ‘sgiliau uwch’ fel dringo wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y rhai sy’n cymryd rhan.

Yn hanesyddol, mae rhwystrau i gymryd rhan mewn hamdden awyr agored wedi cynnwys diffyg amser, iechyd gwael a thywydd gwael. Eleni, mae’r rhain wedi newid o dan Covid-19 ac mae yna wahanol agweddau ar y rhesymau pam mae yna rwystrau i’r awyr agored yn 2020. Roedd y rhwystrau’n cynnwys: pobl yn cydymffurfio â chyfyngiadau’r llywodraeth a’r neges i ‘aros gartref’, pryderon am ledaenu Covid-19 i eraill a/neu bryder am ddal Covid-19 gan eraill.  Rhwystrau eraill oedd cau meysydd parcio, a oedd yna gyfyngiadau ar niferoedd ymwelwyr a chanslo digwyddiadau awyr agored neu weithgareddau grŵp.

Bydd manteision ymgysylltu â’r awyr agored yn cael eu hanwybyddu weithiau, ond fe edrychwyd arnynt yn yr arolwg hwn. Y brif fantais i bobl oedd iechyd a llesiant meddyliol; manteision seicolegol ‘rhyddid’, ‘dianc’ a’r ‘teimlad o ryddhad’. Nodwyd y manteision iechyd corfforol, drwy wneud mwy o weithgarwch, hefyd, wrth i gampfeydd barhau i fod ar gau. Nodwyd ymgysylltu cymdeithasol fel mantais arall, gan fod yr awyr agored yn rhoi ‘lle diogel’ i dreulio amser gyda theulu a ffrindiau. Roedd cysylltiad a gwerthfawrogiad cynyddol gyda’r amgylchedd a natur yn fantais i rai hefyd. Hyd yn oed gyda Covid-19, mae’r amgylchedd a newid yn yr hinsawdd yn dal i fod ymhlith y 3 prif fater sy’n destun pryder i bobl yn y DU.

Roedd yr heriau yn ystod Covid-19 yn cynnwys heriau o ran prysurdeb a thawelwch wrth agor a chau mynediad mewn rhai ardaloedd awyr agored. Mae darpariaeth gyfyngedig mannau gwyrdd yn bryder hefyd, yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd. Y ffordd o reoli mannau twristaidd poblogaidd yw edrych ar sut y gellir gwella mannau gwyrdd lleol a chyfleoedd. Ymddygiad anghyfrifol; sbwriel, gwersylla anghyfreithlon, gormod o bobl, difrod i’r amgylchedd ac ati. Yn yr adroddiad mae yna astudiaeth achos da o Ynys Metgawdd lle’r effeithiwyd ar adar yn nythu a lle cafwyd effeithiau negyddol. Mae Covid-19 wedi effeithio ar niferoedd gwirfoddolwyr amgylchedd lleol a lefelau staffio sefydliadau, a’r effaith ar gymunedau lleol; yn enwedig trosglwyddiad Covid-19 mewn mannau prysur iawn ac effeithiau ar seilwaith.

Casgliad: Cipolwg yw’r adroddiad, o ystyried yr amser a’r adnoddau oedd ar gael. Mae Covid-19 yn dal i fod yn sefyllfa weithredol, na ellir ei rhagweld a gall newid. Bydd

sefydliadau'r Llywodraeth ledled y DU yn ceisio deall ymddygiad tebygol pobl yn y dyfodol yn awr; beth sy'n debygol o barhau, o newid a sut y gellir deall pryderon ymlaen llaw yn hytrach nag ymateb pan fydd rhywbeth yn digwydd.

Mae gwybodaeth yn dangos y bydd Covid-19 yn parhau i effeithio ar hamdden a natur. Nid problem iechyd yn unig yw Covid yn y DU, ond problem amgylcheddol hefyd. Mae proses yn cael ei chyflwyno i fonitro niferoedd ymwelwyr hirdymor ac mae arolwg Pobl a Natur newydd ar droed yng Nghymru i edrych ar effeithiau negyddol Covid; fel ymddygiad cyfrifol a niferoedd ymwelwyr. Ond mae angen cynyddu manteision iechyd a llesiant cyfranogiad hefyd.

**Pwyntiau trafod**

- Nodwyd bod Canŵ Cymru a British Canoeing wedi gweld cynnydd mawr mewn ymholiadau am fynediad i ddŵr ac aelodaeth dros y 12 mis diwethaf.

- Mae cyfeiriadau at fannau gwyrdd yn cynnwys mannau glas. Mae amrywiaeth darpariaeth wedi bod yn un o'r heriau, bod angen i amrywiaeth gweithgareddau a chyfleoedd fod yn agosach at ble mae pobl yn byw. O fewn hynny mae yna broblemau wedi bod o ran cael mynediad i ddŵr hefyd. Mae'r adroddiad yn cynnwys astudiaeth achos diddorol am yr Afon Wharfe a enillodd statws dŵr ymdrochi, ac a welodd gynnydd anferth yn nifer yr ymwelwyr, sy'n dangos lefel y galw. Un o'r heriau o fynd i'r afael â phroblemau mewn perthynas â mannau poblogaidd a'r posibilrwydd o ddarparu mwy o gyfleoedd er mwyn helpu i rannu'r niferoedd.

- Mae'r adroddiad yn ategu'r problemau a welwyd gan swyddogion Hawliau Tramwy Cyhoeddus.

- Er bod gwahanol batrymau tywydd yn cyfrannu o ran darparu cymhariaeth â data o flynyddoedd blaenorol, mae tuedd gyffredinol y cymharydd yn gadarn. Yn gyffredinol, cafwyd cynnydd sylweddol o gymharu â beth fyddai wedi cael ei ystyried yn 'normal', neu'r cyfnod cyn Covid, ddiwedd yr Haf. Ond nid yw'r cynnydd o 80% yn wahaniaeth pendant, absoliwt.

- Cydnabod yr angen i bwysleisio'r gwahaniaeth rhwng gwersylla gwyllt ar raddfa fach a wneir yn gyfrifol a gwersylla anghyfreithlon anghyfrifol.

- Bydd Sue yn rhoi ystyriaeth bellach i broffilio ymwelwyr newydd a'r cwestiwn a godwyd ynghylch a oes unrhyw wahaniaethau mewn digwyddiadau a damweiniau yn yr awyr agored, mewn perthynas â defnyddwyr newydd a mwy o bobl yn mynd yno sydd heb arfer, a yw gwasanaethau fel Gwylwyr y Glannau neu'r Tîm Achub Mynydd yn gweld cynnydd yn nifer y bobl sydd heb baratoi ac sy'n dod yn faich ar y gwasanaethau brys a sut y gellir mynd i'r afael â hyn.

- O ystyried y cynnydd aruthrol yn y defnydd o hamdden awyr agored yn ystod y pandemig, awgrymwyd bod angen i CNC a Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i ymateb i'r heriau y mae hyn yn ei achosi o ran ymgorffori ymddygiad cyfrifol yn niwylliant Cymru ar gyfer y dyfodol. Mae angen edrych ar addysg a chefnogi pobl wrth iddynt ofalu am gefn gwlad a natur a'i mwynhad ohono.

- Rhoddwyd blaenoriaeth i weithio ar hyn yn syth yng nghylch gwaith Tystiolaeth CNC. Mae'r gwaith yn cynnwys trefnu arolwg Pobl a Natur newydd i Gymru, sy'n golygu y bydd data'n cael ei goladu'n gynt, a dylai peth ohono fod ar gael ym Medi/Hydref. Mae'r Tîm Mynediad a Hamdden Awyr Agored yn datblygu'r gwaith hwn o fewn CNC hefyd. Bydd tystiolaeth yn cael ei defnyddio i bwysleisio'r manteision gwirioneddol a chydnabod heriau, a ble gellir mynd i'r afael â'r rhain. Dim ond un rhan o'r darlun yw tystiolaeth, mae barn rhanddeiliaid, cynghorwyr a rheolwyr tir i gyd yn rhan o'r ateb.

- Nododd y Cadeirydd fod Dr. Miles Richardson o Brifysgol Derby'n defnyddio un ystadegyn yn rheolaidd sef bod 70% o bobl sy'n gwneud cysylltiad emosiynol â natur yn mynd ymlaen i fod ag ymddygiad sydd o blaid yr amgylchedd. Felly, mae hyn yn ymwneud â buddsoddi yn nyfodol cymdeithas a'r amgylchedd hefyd. Mae'n hanfodol ein bod ni fel sefydliad yn sefydlu cytundebau gyda thirfeddianwyr, gan fod llawer o'r tir o dan berchnogaeth breifat. Mae angen mecanwaith ar waith i ddylanwadu ar hynny.

- Byddai'n ddefnyddiol cael dadansoddiad ystadegol manwl ar draws grwpiau cymdeithasol i allu nodi'r ffactorau pwysicaf (a'u rhyngweithiad) a arweiniodd at ffigurau ymweld gwahanol ar draws grwpiau demograffig cymdeithasol.

- Mae yna ffocws ar ganlyniad cyfartal a llai ar gyfle cyfartal.

- Mae Sue'n gweithio'n fewnol ag uwch ystadegydd CNC i edrych ar ddata newydd wrth iddo gael ei ddarparu.

- Cyfeiriodd Sue at brosiect pedair blynedd a fydd yn dadansoddi'r gwahaniaeth rhwng dosbarthiad mannau gwyrdd, defnydd pobl o'r mannau gwyrdd hynny ac anhwylderau iechyd meddwl cyffredin o gofnodion iechyd dienw ledled Cymru. Mae CNC yn bartneriaid yn y gwaith hwn, ynghyd ag ysgol feddygol Caerwysg, ac mae'n cael ei arwain gan Brifysgol Abertawe. Bydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni. [2021].

**Cam Gweithredu 69.2:** Sue i drafod cyflwyno canlyniadau rhaglen waith Prifysgol Abertawe i'r Fforwm gyda Carys.

## Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Cyflwynodd Juliet Michael, Arweinydd Tîm Mynediad a Hamdden Awyr Agored, CNC Gyflwyniad PowerPoint y Cynllun Ffermio Cynaliadwy [ar ran Phil Roberts, Llywodraeth Cymru].

Rhoddwyd pwerau i Lywodraeth Cymru weithredu ei Chynllun Cymorth Amaethyddol ôl-Brexit, sef y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Bydd Cymru'n rheoli'r pontio rhwng y cynlluniau a'r ddeddfwriaeth sylfaenol a'r is-ddeddfwriaeth

**4.** sy'n angenrheidiol ar gyfer gwneud hynny.

Rhannwyd yr amserlen ar gyfer hyn. Bydd angen deddfwriaeth sylfaenol er mwyn i Gymru gael Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a bydd angen is-ddeddfwriaeth i gyflawni'r cynllun hwnnw. Mae'r amserlen yn rhoi 2024 fel dyddiad cyflwyno'r ceisiadau cyntaf.

Ar hyn o bryd mae'r cynllun yn edrych ar gynhyrchu bwyd diogel a chynaliadwy, ymateb i argyfyngau bioamrywiaeth a hinsawdd, a gwobrwyo ffermwyr am gyflawni canlyniadau rheoli tir cynaliadwy. Bydd y cynllun gwobrwyo hwn yn

mynd ymhellach na'r gofynion statudol ac yn edrych ar wasanaeth cynghori cyfannol.

Mae'r canlyniadau rheoli tir cynaliadwy yn seiliedig ar ymgynghoriadau blaenorol ac yn cynnwys: aer a dŵr glân, ecosystemau cydnerth a mynediad ac ymgysylltiad gwell, sef y canlyniad y bydd y Fforwm yn canolbwyntio arno.

Mewn cynlluniau blaenorol, roedd ffermwyr yn cael eu gwobrwyo am gostau yr aed iddynt, ond bydd y cynllun newydd hwn yn gwobrwyo cynhyrchu bwyd a'r canlyniadau.

Roedd y cyflwyniad yn cwmpasu cynllun a strwythur y cynllun. Bydd y cynllun ar gael i'r rhan fwyaf o ffermwyr y rhan fwyaf o'r amser, ac yn cymell a gwobrwyo arferion gorau. Fe fydd yna Safonau Gofynnol Cenedlaethol a bydd CNC yn gweithio i sicrhau bod cydymffurfio â deddfwriaeth mynediad yn rhan o'r safonau hyn. Lefelau pellach y cynllun oedd: camau gweithredu lefel uwch dewisol ac yna cydweithio a allai ddatblygu dros nifer o flynyddoedd. Daeth y cyflwyniad i ben gyda ffocws ar egwyddorion y cynllun a'r camau nesaf.

Yn absenoldeb Philip Roberts cytunwyd y byddai unrhyw gwestiynau'n cael eu nodi a'u rhoi iddo. Diolchodd y Cadeirydd i Juliet Michael am gamu i'r adwy i gyflwyno'r eitem.

**Cwestiynau a godwyd i roi adborth i Philip Roberts:**

C. Mynediad i 'Fannau Gwyrdd', beth am fynediad 'Fannau Glas' a dyfroedd mewndirol, ac, os yw hyn yn seiliedig ar Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy nad ydynt wedi'u cynnwys ar hyn o bryd. Felly, beth yw'r cwmpas a sut mae hyn yn cael ei ystyried?

C. Calonogol clywed am drawsgydymffurfio a bod hyn yn cael ei gymhwyso i fynediad y tro hwn, a oes yna unrhyw awgrym gan Lywodraeth Cymru ynghylch pa gamau y bydd yn eu cychwyn a phryd y byddant yn ymateb i'r ymgynghoriad, yn enwedig o ran bod yn glir ar y 'camau nesaf' mewn perthynas ag ymgysylltu â rhanddeiliaid?

Nododd Juliet fod CNC yn gofyn cwestiynau tebyg i Lywodraeth Cymru a'u bod wedi cael gwybod bod yna brinder staff ar hyn o bryd gyda staff newydd yn dechrau ym mis Medi. Byddai un o'r aelodau staff newydd yn arwain ar Flaenoriaeth Pobl, Anifeiliaid a Lleoedd. Y disgwyl yw y bydd

aelod o'r Uned Diwygio Tir yn gyfrifol am ymgysylltu â rhanddeiliaid erbyn yr hydref.

C. Sut mae'r Fforwm hwn yn rhyngweithio â Llywodraeth Cymru ar y mater hwn? Sut y gall Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru gefnogi'r gwaith o gyflwyno dull strategol o gyflawni'r elfen hon o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yn enwedig mewn perthynas â Mynediad?

C. Y rhan bwysicaf o hyn i ffermwyr yw'r wir gost o'i gyflawni ar lawr gwlad. O edrych ar raglenni blaenorol tebyg, fel Glastir, bydd ffermwyr yn gwneud y gwaith hwn ar golled ac ni fydd unrhyw ddiddordeb mewn cymryd rhan ynddo i greu mynediad ac ati. Allwn ni ofyn i Lywodraeth Cymru gael cyfrifiadau a chostau'r cynllun hwn yn gywir fel y bydd ffermwyr am ymuno ag ef, i ddechrau, yna cyflawni?

Mewn perthynas ag ymgynghori â rhanddeiliaid a'r Uned Diwygio Rheoli Tir, nododd Simon Pickering fod cynrychiolydd o Uned Diwygio Mynediad Llywodraeth Cymru yn mynychu cyfarfodydd Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru bob amser ac yn mynd â nodiadau yn ôl i'r Uned Ddiwygio ac y bydd hynny'n parhau i ddigwydd. Bydd mecanweithiau'n cael eu cyflwyno ar gyfer ymgysylltu ehangach fel rhan o waith yr Uned Ddiwygio ac mae yna linell gyfathrebu o fewn tîm Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei adlewyrchu yn y statws. Mae'n ddyddiau cynnar, ond mae yna drafodaeth ynghylch mynediad i ddŵr fel thema i'w hystyried fel rhan o ddatblygiad y cynllun.

C. Pryd fydd canlyniadau'r ymgynghoriad a gaeodd yn ddiweddar yn cael eu cyhoeddi? Ydyn ni'n gallu cael gafael ar y wybodaeth hon nawr am nifer yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad o Gymru? Yna'r nifer o ymatebion a ddaeth o'r tu allan i Gymru a gweddill y byd?

C. Dywedwyd mai un o'r nodau yw cynyddu mynediad hawdd at hamdden sy'n gysylltiedig â byd natur, sut bydd y cynllun yn ceisio cymell ffermwyr/tirfeddianwyr i ganiatáu mynediad ychwanegol i fannau gwyrdd a gwarchod mynediad hanesyddol? A fydd cyllid yn amodol ar sail mynediad mewn achosion hanesyddol, neu achosion newydd?

**Cam Gweithredu 69.3 Carys i roi cwestiynau gan Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru i Philip Roberts a dod ag atebion yn ôl i'r cyfarfod nesaf.**

## Rhaglen Diwygio Mynediad

Cafwyd Cyflwyniad PowerPoint gan Simon Pickering, Pennaeth Tirweddau a Mannau Awyr Agored [Llywodraeth Cymru] a Jont Bulbeck, Arweinydd Rhaglen Diwygio Mynediad [CNC].

Ar ôl Etholiad y Senedd ar 6 Mai 2021, penodwyd Gweinidog a Dirprwy Weinidog newydd - Julie James a Lee Waters. Gyda hyn, cyhoeddwyd 'Rhaglen Lywodraethu' pum mlynedd newydd ar 15 Mehefin, yn nodi prif flaenoriaethau'r llywodraeth, a bydd y llywodraeth yn gwneud gwaith arall hefyd.

Mae'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog yn gyfrifol am fynediad i gefn gwlad, yr arfordir a hawliau tramwy, maent yn gyfrifol am ddŵr hefyd, mae newid yn yr hinsawdd yn flaenoriaeth allweddol, ac mae ganddynt bortffolio gweinidogol mawr sy'n cynnwys yr amgylchedd, tai, cynllunio, ynni, trafnidiaeth a thirweddau dynodedig. Bydd y Dirprwy Weinidog yn arwain ar fynediad a'r Gweinidog yn arwain ar dirweddau dynodedig.

Mae'r 'Rhaglen Lywodraethu' i'w chael ar-lein: https://llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu

5.

Nododd Simon y cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer mynediad:

- Cyllid Grant Gwella Mynediad i awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol, a ddyrannwyd drwy fformiwla gyda £2 miliwn wedi'i ddyrannu yn 2021/22.
- Llwybr Arfordir Cymru
- Cyllid ychwanegol ar gyfer Llwybrau Cenedlaethol
- Ein Llwybrau Byw – prosiect newydd i edrych ar fioamrywiaeth
- Gweithio gyda Croeso Cymru i hyrwyddo hamdden cyfrifol a'r cod cefn gwlad.

O ran y gwaith tymor canolig i hirdymor, cwblhawyd darnau allweddol o waith: adroddiad ARAG ac Is-grŵp Dyfroedd Mewndirol Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru, mae'r adroddiadau hyn yn cael eu hadolygu gan y Gweinidog ar hyn o bryd.

Yna, soniodd Jont Bulbeck unwaith eto am y gwaith a'r broses o lunio adroddiad ARAG. Cyflwynwyd yr adroddiad

terfynol ar ddiwedd mis Ebrill 2021. Soniodd am y meysydd diwygio a'r themâu trawsbynciol, yr allbynnau a gyflawnwyd gydol y flwyddyn yna nododd rai o argymhellion yr adroddiad.

Diolchodd Simon a Jont i'r rhai a fu'n rhan o'r gwaith, yn enwedig y rhanddeiliaid allanol fel rhan o'r Grŵp Llywio a'r Grwpiau Arbenigol.

Byddai'r holl allbynnau ar gael ar dudalen ARAG ar wefan Llywodraeth Cymru.

**Pwyntiau trafod:**

- Dywedodd Simon Pickering mai Is-adran Dŵr Llywodraeth Cymru sy'n arwain y gwaith i gwmpasu bwriad Llywodraeth Cymru i ddechrau dynodi dyfroedd mewndirol Cymru ar gyfer hamdden i ddechrau, gan ddweud bod y gwaith yn ei ddyddiau cynnar. Mae cysylltiadau buddiol yn cael eu creu gyda'r gwaith a gynhyrchwyd gan yr Is-grŵp Mynediad i Ddyfroedd Mewndirol.

- Roedd y Cadeirydd yn gobeithio y byddai Fforwm Mynediad Cyhoeddus Cymru'n darparu un mecanwaith ar gyfer trafodaeth wrth i'r gwaith ddatblygu.

- Nodwyd bod CNC a Llywodraeth Cymru'n cael trafodaethau parhaus ar y berthynas rhwng mynediad fel rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yn cynnwys y Rhaglen Diwygio Mynediad, ac edrych ar y cyfleoedd. Trafodwyd hyn hefyd yn nhrafodaethau ARAG o ran sut y gallant ryngweithio, er enghraifft cynllun ffermio i gefnogi hawliau uwch a darparu seilwaith mynediad fel rhywbeth ychwanegol at wella'r mynediad a'i weithrediad. Mae yna lawer o gyfle i ystyried y cysylltiadau hyn mewn perthynas â diwygio a'r ffordd y byddai'n cael ei weithredu. Ond llai o gyfle mewn perthynas â chyflwyno'r diwygiadau eu hunain o ran newid deddfwriaethol.

- Croesawyd y Grant Gwella Mynediad parhaus a'r £2 filiwn ar gyfer eleni ond nodwyd bod hwn yn llawer llai na'r hyn a ddyrannwyd ar gyfer Teithio Llesol, mae'r adroddiad ar covid yn dangos hyn. Gobeithiwyd y byddai cael yr un Dirprwy Weinidog yn gyfrifol am y ddau yn golygu meddwl mwy cydgysylltiedig a mwy o degwch. Cadarnhaodd Simon Pickering y byddent yn gweithio'n agos â chydweithwyr Teithio Llesol.

- O ran y themâu trawsbynciol a nodwyd ym mhroses ARAG, dywedodd Llywodraeth Cymru i ddechrau y byddai'n disgwyl i hamdden cyfrifol gael ei ddatblygu ar ôl y diwygiadau eraill ond ei fod wedi datblygu proffil uwch ac yn cael ei ystyried ym mhroses ARAG. Rhoddodd Jont grynodeb o'r broses a'r opsiynau a ystyriwyd ar gyfer hamdden cyfrifol. Darparwyd argymhellion i Lywodraeth Cymru eu hystyried i ddewis dull a ffefrir.

- Nododd y Cadeirydd ei fod ef wedi deall mai grŵp gorchwyl a gorffen oedd yr Is-grŵp Mynediad i Ddŵr a bod y gwaith o ddarparu'r adroddiad i'r Gweinidog wedi'i gwblhau bellach.

- Gofynnwyd am ddosbarthu'r adroddiad i'r Fforwm llawn.

**Cam Gweithredu 69.4: Dosbarthu adroddiad cynnydd yr Is-grŵp Mynediad i Ddŵr i'r Fforwm.**

- Nodwyd bod yna lywodraeth a Gweinidog gwahanol erbyn hyn ac nad oedd unrhyw broblem gyda dosbarthu'r adroddiad a luniwyd.

- Nododd Simon Pickering fod y Dirprwy Weinidog wedi gofyn am sefydlu'r is-grŵp a'i fod wedi'i fwriadu fel grŵp gorchwyl a gorffen ar y cychwyn. Nid oedd Llywodraeth Cymru'n fodlon rhoi barn ar a ddylai barhau gan ei fod yn cael ei ystyried fel is-grŵp Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru felly'r aelodau ddylai ystyried. Gellid sefydlu is-grŵp os oedd angen mynd i'r afael â chwestiwn penodol.

- Roedd yr adroddiad yn cynnwys pwyntiau'n ymwneud ag awgrymiadau am waith pellach.

- Nodwyd yr ymdrech roedd aelodau'r is-grŵp wedi'i wneud i baratoi'r adroddiad ac roedd yr aelodau'n awyddus nawr, ac yn dymuno datblygu gwaith.

- Anfonwyd yr ymateb i'r Dirprwy Weinidog newydd ond ni dderbyniwyd ymateb terfynol eto.

**Cam Gweithredu 69.5:** Ar ôl derbyn ymateb y Gweinidog byddai'n cael ei ddosbarthu i'r Fforwm llawn. Byddai'r Fforwm llawn yn penderfynu a fyddai angen gwneud gwaith, ac ai is-grŵp yw'r ffordd orau o wneud hynny.

- Mynegwyd pryderon nad oedd digon o adnoddau i'r gwasanaeth hawliau tramwy a bod yna enghreifftiau o

ôl-groniadau sylweddol a bod angen mynd i'r afael â hyn. O ystyried yr amrywiaeth o gyflwyniadau a wnaed mae hwn yn gyfle i dynnu sylw at y broblem a'i chodi'n uwch ar yr agenda o ystyried y dystiolaeth o waith covid. Tra bod Grant Buddsoddi'r Cynulliad o £2 filiwn yn cael ei groesawu, dim ond swm pitw ydyw o gymharu â chyllidebau eraill e.e. Teithio Llesol. Mae angen cyflwyno'r holl dystiolaeth newydd hon i'r Gweinidog newydd a phrofi bod y rhaniad rhwng hamdden a theithio llesol yn anghyfartal. Mae yna chwe Gweinidog i gyd yn cwmpasu'r agenda hon, felly sut rydym ni'n dod â'r holl dystiolaeth hon a'r angen am fuddsoddi yn ôl o gwmpas y bwrdd?

**Cam Gweithredu 69.6** Gwahodd y Gweinidog i ymuno â'r fforwm ar adeg briodol yn y dyfodol.

Cwestiwn am atebolrwydd tirfeddianwyr a chytuno i ystyried y pwnc fel eitem agenda yn y dyfodol.

**Cam Gweithredu 69.7** Ychwanegu eitem ar agenda yn y dyfodol i edrych ar atebolrwydd tirfeddianwyr.

## 6. Cyfraniadau Ysgrifenedig

Roedd cyfraniadau ysgrifenedig wedi'u dosbarthu; gellid anfon unrhyw gyfraniadau pellach at Carys i'w cynnwys.

## 7 Y cyfarfod nesaf: 9 Tachwedd 2021

Ar ran yr aelodau, diolchodd Ruth Rourke, y Dirprwy Gadeirydd, o galon i Howard am gadeirio rhai pynciau a chyfarfodydd diddorol ac anodd, a'r holl waith paratoi a wnaed i gefnogi cyfarfodydd. Trosglwyddodd Howard y Gadair yn ffurfiol i Geraint Davies.